

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 10fed Hydref 2016

Presennol – Gareth Wynne Cadeirydd, Marion Bettenev, Jim Boughton, Karen Pugh, Janet Charlton, Gareth Parry, Nick Corney, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau - Gwawr Jones, Terry Bullock, Siân Godbert, Meirion Owen, Cyng. Elisabeth Roberts
Cyngor BSConwy.

Datgan diddordeb . Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion, Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 12fed Fedi 2016.

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu yn bresennol

[1.1] Cae Chwarae Pentre' Du/Byrddau Picnic

Dywedodd y Cyng. Elisabeth Roberts bod y byrddau ar fin cael eu dychwelyd, a bod y Cyngor Sir yn ceisio darganfod offerynnau chwarae ar gyfer yr anabl, ynghyd a gwelliannau i'r llwybrau.

[1.2] Biniau Ysbwriel ar yr A470 ger Pont Waterloo ar groesfan gyferbyn a Londis

Nodwyd bod bin ailgylchu newydd wedi ei osod ger y groesfan, y bin dy i gael ei ail leoli ar fin yr A470 gyferbyn a'r rhaeadr.

[1.3] Nadolig Betws-y-Coed/ Mynediad i Gae Llan

Dywedodd y clerc ei fod, ynghyd a Mr Ashley Crawley, wedi cwrdd gyda Swyddog Adran Eiddo'r Parc Cenedlaethol a'i fod wedi cytuno i giât fechan bren yn adwy i'r cae yn ymyl y toiledau. Mae Mr Crawley yn trefnu cynlluniau ar gyfer i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol.

[1.4] Llwybr Tan Dinas/ Byrddau ar gyfer yr Anabl

Cytunodd y Cyng. Gareth Wynne i archwilio costau ar gyfer byrddau newydd.

[1.5] Cytundeb Rheoli Cae Llan

Y clerc i drefnu cyfarfod gydag Allan Sharp Cyngor BS Conwy yn ogystal ar Cyng. Gareth Wynne ar Cyng. Elisabeth Roberts.

[1.6] Tynnu Dŵr/Llyn Elsi

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.7] Coeden Dderw/ Cae Llan

Gan nodi cynnig Cyngor BS Conwy i leihau maint y goeden. Y clerc i anfon sylwadau fod pryder y bydd y goeden efallai yn edrych yn ddiolwg.

[1.8] Llanast ar fin yr afon gyferbyn a Henllys

Dywedodd y clerc iddo anfon cwyn a wnaed ymlaen i sylw Cyngor BS Conwy.

Y Brif Agenda

[1.9] Materion Cynllunio

- [a] Newid ports ffrynt gyda ports pren agored a tho llechi a.y.b Forest Lodge, Betws-y-Coed.
[b] Adnewyddu tŷ yn cynnwys estyniad llawr cyntaf i'r tŷ presennol ac adeiladu estyniad ochr deulawr. Ardwyn, Ffordd Caergybi, Betws-y-Coed.
[c] Codi strwythur i'w ddefnyddio fel sgubor bwyta am gyfnod dros dro [bwriad diwygiedig] Gwesty'r Royal Oak, Betws-y-Coed.
[d] Ailsefydlu to, Hen Dollborth, Pont-yr-Afanc, Betws-y-Coed.
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r 4 cais uchod.
[f] Rhaeadr y Graig Lwyd. Cynllun trydan dwr arfaethedig
Nodwyd bod y cais wedi ei dynnu'n ôl.

[2] Materion Ariannol

- (a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddsbarthwyd) a wnaed ym mis Medi 2016.
(b) Y Rhaeadr Ewynnol -Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Medi 2016.
[c] Adroddiad yr Archwiliwr Allanol.
Cyfeiriodd y clerwr at y sylwadau canlynol yn yr adroddiad.

[1] Y broses gyllideb

Sylwadau; Ni wnaeth Y Cyngor gofnodi fel tystiolaeth derbyn y gyllideb.

[2] Cyllideb

Sylwadau ; Ni wnaeth dogfen y gyllideb gymryd i ystyriaeth lefel cronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor.

[3] Sylwadau ; Dim llythyr yn penodi'r archwilydd mewnol.

Eglurodd y clerwr er i lythyr o benodiad gael ei gyflwyno, ond nid oedd yn cynnwys y canllawiau oedd ei angen.

Penderfynwyd cymeradwyo'r adroddiad. Y clerwr i weithredu'r argymhellion.

[2.1] Llenni I'r Llwyfan

Cyfeiriodd y clerwr at gais gan Mrs Marian Owen am lenni ychwanegol i'r Llwyfan.

Penderfynwyd gan mae ychydig o ddefnydd sydd yn cael ei wneud o'r neuadd ar gyfer perfformiadau theatr, nid oedd yn bosib cyfiawnhau'r gost.

[2.2] Baw Cwn/Cae Llan

Gan nodi bod y broblem o faw cwn yn parhau. Y clerwr i gysylltu gyda Unllais Cymru yn argymhell ail sefydlu trwyddedau cwn.

[2.3] Goleuadau Stryd Ffordd yr Orsaf

Y clerwr i gysylltu gyda 'r Parc Cenedlaethol i gesio cael glanhau'r gwydrau ar y goleuadau ar Ffordd yr Orsaf ac ar y llwybr i'r Ganolfan Groeso.

[2.4] Taflu Gwastraff

Y clerwr i gysylltu gyda Chyngor BS Conwy ynglŷn [a] gwastraff wedi ei daflu ar fin y ffordd yn arwain tuag at Capel Garmon [b] gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â gwastraff wedi ei daflu ar fin y ffordd o Garej Betws-y-Coed I gyfeiriad Pont-yr Afanc.

[2.5] Nodwyd y wybodaeth ganlynol, Cyngor BS Conwy- Premiymau Treth y Cyngor ar Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru